Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Ebrill 2010

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Cynnwys

Cyflwyniad .....Tudalen 3

Pa benderfyniadau budd-dal neu gais y byddwch yn eu hailystyried? .....Tudalen 4

Sut y gallaf gael gwybod mwy am benderfyniad? .....Tudalen 7

Fyddwch chi'n ailystyried penderfyniad? .....Tudalen 8

Beth fydd yn digwydd nesaf? .....Tudalen 9

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn apelio?.....Tudalen 11

Beth fydd yn digwydd yn ystod y broses apelio? .....Tudalen 13

Beth os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys?.....Tudalen 17

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth? .....Tudalen 20

Cyflwyniad

Os ydych chi wedi gwneud cais am fudd-dal neu'n cael budd-dal, efallai y bydd angen i chi wybod beth y gallwch ei wneud os credwch ein bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir am eich cais neu os nad ydych yn deall ein penderfyniad. Mae 'budd-dal' yn cynnwys credydau ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Yn y daflen hon, mae'r gair 'budd-dal' hefyd yn golygu credydau.

Os byddwch yn cael penderfyniad ysgrifenedig gennym, fel arfer mae oherwydd y canlynol:

- rydych wedi gwneud cais am fudd-dal
- mae eich amgylchiadau wedi newid ac yn effeithio ar eich budd-dal, neu
- cawsoch wybod bod yn rhaid i chi ad-dalu budd-dal.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, neu os nad ydych yn ei ddeall, gallwch wneud unrhyw un, neu bob un o'r canlynol:

- gofyn i ni am eglurhad llafar neu ysgrifenedig
- gofyn i ni ystyried ein penderfyniad eto
- gofyn i ni am 'ddatganiad ysgrifenedig o'r rhesymau' os na roddwyd hyn yn y penderfyniad
- apelio yn erbyn ein penderfyniad.

Ar gyfer rhai penderfyniadau, efallai yr aiff eich apêl at dribiwnlys annibynnol. Gallant newid ein penderfyniad os credant ei fod yn anghywir. I apelio, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon. Mae rhagor o wybodaeth am dribiwnlysoedd yn y daflen hon.

Mae terfynau amser ar gyfer gofyn i ni ailystyried penderfyniadau ac apelio. Mae'r daflen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi amdanynt.

Pa benderfyniadau budd-dal neu gais fyddwch chi'n eu hailystyried?

Budd-daliadau a'r Gronfa Gymdeithasol

Os byddwch yn cael penderfyniad ysgrifenedig am eich budd-dal neu gais o'r Gronfa Gymdeithasol ac rydych yn anghytuno ag ef, gallwch ofyn i ni ei ystyried eto. Mae ein llythyr penderfyniad yn dweud wrthych sut i wneud hyn.

Os na fyddwn yn newid ein penderfyniad, mewn rhai achosion mae'n bosibl y gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol. Bydd y llythyr sy'n dweud wrthych am ein penderfyniad yn dweud wrthych a allwch apelio.

Benthyciadau trefnu, grantiau gofal cymunedol neu fenthyciadau argyfwng

Gallwch ofyn i ni ailystyried ein penderfyniadau am fenthyciadau trefnu'r Gronfa Gymdeithasol, grantiau gofal cymunedol neu fenthyciadau argyfwng. Fodd bynnag, os byddwn yn glynu at ein penderfyniad neu os byddwn yn ei newid ac rydych yn dal yn anfodlon, yna gallwch wneud cais am adolygiad i'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol. I gael manylion llawn am y gwasanaeth hwn, gweler y daflen 'Adolygiadau annibynnol y Gronfa Gymdeithasol'. Gallwch ei chael gennym ni.

Ni allwch apelio i dribiwnlys annibynnol am y penderfyniadau hyn.

Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall
Mae rheolau arbennig os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun na all wneud cais eu hunain. Gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn apelio ar ran rhywun arall
Gallwch apelio ar ran rhywun arall os yw'r person hwnnw wedi nodi'n ysgrifenedig y gallwch wneud hynny. Nid oes yn rhaid i chi fod yn gymwys yn gyfreithiol i wneud hyn. Gallech fod yn aelod o'r teulu neu unrhyw un arall y mae'r unigolyn wedi gofyn iddynt eu cynrychioli.

Os ydych yn benodai
Mae penodai yn rhywun rydym ni (yr Adran Gwaith a Phensiynau) wedi'i ddewis i weithredu ar ran unigolyn na all weithredu drostynt eu hunain.

Os ydych yn benodai ar ran unigolyn arall, gallwch ofyn i ni ailystyried penderfyniad am eu budd-dal a gallwch apelio ar eu rhan.

Cynhaliaeth plant

Yr Asiantaeth Cynnal Plant sy'n gwneud penderfyniadau am gynhaliaeth plant. Os credwch fod yr asiantaeth wedi gwneud y penderfyniad anghywir am gais am gynhaliaeth plant, dylech gysylltu â hi yn y cyfeiriad a'r rhif ffôn ar eich hysbysiad penderfyniad. Dylech wneud hyn o fewn mis i'r dyddiad ar yr hysbysiad.

Ar 3 Mawrth 2003, cyflwynwyd cynllun newydd ar gyfer achosion cynhaliaeth plant newydd ac ar gyfer achosion o dan yr hen gynllun a oedd yn gysylltiedig â rhai newydd.

Os ydych am gael gwybod mwy am ofyn i'r Asiantaeth Cynnal Plant ailystyried penderfyniad, neu apelio yn erbyn penderfyniad y mae wedi'i wneud, darllenwch y taflenni canlynol.

- Os gwnaethoch gais i'r Asiantaeth Cynnal Plant **cyn** 3 Mawrth 2003, dylech gael taflen **CSA2006(A)W** 'Sut i Apelio'.
- Os gwnaethoch gais i'r Asiantaeth Cynnal Plant **ar** 3 Mawrth 2003 **neu wedi hynny**, dylech gael taflen **CSL307W** 'Sut y gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?'.

Am ragor o wybodaeth am y ffordd y bydd newidiadau i'r cynllun cynhaliaeth plant yn effeithio arnoch chi neu i ofyn am gopi o'r taflenni hyn, cysylltwch â'r llinell gymorth ar **0845 713 3133**. Gall pobl sydd ag anawsterau gyda'u clyw ffonio **0845 713 8924**. Neu gallwch ffonio'r llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**.

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Eich cyngor lleol sy'n gwneud penderfyniadau am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor a faint y gallwch ei gael. Os credwch fod penderfyniad am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa yn y cyngor sy'n talu eich budd-dal.

Ymdrinnir ag anghydfodau am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor mewn ffordd debyg i'r rhai am fudd-daliadau eraill. Felly bydd llawer o'r daflen hon yn gymwys os byddwch yn gofyn i'ch cyngor lleol ailystyried penderfyniad neu apêl yn erbyn penderfyniad mae wedi'i wneud am eich Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Bydd yr hysbysiad penderfyniad yn dweud wrthych beth i'w wneud. Os na fyddwch yn siwr, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) sy'n gwneud penderfyniadau am gredydau treth.

Os credwch fod penderfyniad mae CThEM wedi'i wneud ar gredydau treth yn anghywir, dylech gael y daflen 'Sut i apelio yn erbyn penderfyniad neu ddyfarniad credyd treth'. Ffoniwch y llinell gymorth ar **0845 300 3900**. Dylai pobl ag anawsterau gyda'u clyw ffonio **0845 300 3909**.

Budd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad

Mae CThEM yn gwneud penderfyniadau am Fudd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad. Os credwch fod penderfyniad mae CThEM wedi'i wneud am Fudd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad yn anghywir, dylech gael taflen **CH24A** 'Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir'. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwch â'r swyddfa Budd-dal Plant a anfonodd y llythyr penderfyniad atoch.

Sut y gallaf gael gwybod mwy am benderfyniad?

Os ydych wedi cael llythyr penderfyniad am gais ac am gael gwybod mwy, cysylltwch â'r swyddfa a anfonodd ef atoch ar unwaith. Gallwch ofyn am un neu'r ddau o'r canlynol:

- Esboniad ar lafar neu'n ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad.
- Datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y penderfyniad, os nad ydych eisoes wedi cael un. Fel arfer byddwch yn cael copi o fewn 14 diwrnod o ofyn amdano.

Fyddwch chi'n ailystyried penderfyniad?

Gallwch ofyn i ni ailystyried penderfyniad os:

- rydych wedi cael eglurhad ar lafar am y penderfyniad ond yn dal i gredu ei fod yn anghywir, neu
- rydych wedi cael llythyr neu ddatganiad ysgrifenedig o resymau yn dweud wrthych am benderfyniad ond yn anfodlon ag ef.

Os ydych am i ni ailystyried y penderfyniad, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r swyddfa a anfonodd y llythyr penderfyniad atoch. Ond mae'n rhaid i chi wneud hynny o fewn **mis** o'r dyddiad ar y llythyr. Mae'n rhaid i chi hefyd anfon unrhyw dystiolaeth i ategu'ch cais i'r swyddfa.

Os gofynnoch am **ddatganiad ysgrifenedig o resymau**, byddwn yn ymestyn y terfyn amser o fis fel a ganlyn:

- Os anfonodd y swyddfa y datganiad atoch o fewn y terfyn amser, byddwn yn ymestyn y terfyn amser o 14 diwrnod.
- Os anfonodd y swyddfa y datganiad atoch ar ôl y terfyn amser, byddwn yn ymestyn y terfyn amser o 14 diwrnod o'r dyddiad ar y datganiad.

Os gofynnoch am **eglurhad ysgrifenedig neu ar lafar yn gyntaf**, dim ond mis o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad a gewch i ofyn i'r swyddfa ailystyried.

Os bydd amgylchiadau arbennig yn golygu na allwch gysylltu â'r swyddfa o fewn mis (er enghraifft os ydych wedi bod yn ymdopi â salwch neu brofedigaeth neu wedi bod y tu allan i'r Deyrnas Unedig), yna dywedwch wrth y swyddfa am yr amgylchiadau arbennig pan fyddwch yn cysylltu â hwy. Efallai y bydd y swyddfa yn dal i allu newid y penderfyniad.

Os byddwch yn gofyn i'r swyddfa ailystyried penderfyniad fwy na mis ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad ac nad oes gennych amgylchiadau arbennig, yna efallai y bydd y swyddfa yn dal i allu newid y penderfyniad. Ond fel arfer dim ond o'r dyddiad y byddwch cysylltu â nhw y gallwch ei newid. Felly, er enghraifft, efallai na fyddant yn gallu ôl-ddyddio unrhyw fudd-daliadau neu gredydau ychwanegol.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os byddwch yn gofyn i'r swyddfa ailystyried penderfyniad, byddant yn edrych i weld a ydynt wedi gwneud y penderfyniad cywir. Bydd unigolyn yn y swyddfa nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol yn gwneud hyn fel arfer. Byddant yn ystyried unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi iddynt i ategu eich barn fod y penderfyniad yn anghywir. Os byddant yn penderfynu fod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir, byddant yn ei newid.

Os gellir newid y penderfyniad

Os gofynnoch i'r swyddfa ailystyried y penderfyniad o fewn mis, neu eu bod wedi derbyn fod yr amgylchiadau arbennig yn golygu na allech gysylltu â'r swyddfa o fewn mis, yna byddant yn ôl-ddyddio unrhyw ddyfarniad i ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol.

Os byddwch yn anghytuno â'r penderfyniad newydd, gallwch ofyn i'r swyddfa ei ailystyried neu gallwch apelio yn ei erbyn.

Os na ellir newid y penderfyniad

Os bydd y swyddfa yn penderfynu na allant newid eu penderfyniad, byddant yn ysgrifennu atoch i ddweud hyn wrthoch. Bydd y llythyr yn cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol.

Os byddwch yn dal i gredu fod y penderfyniad yn anghywir, efallai y bydd hawl gennych i apelio i dribiwnlys annibynnol. Bydd y llythyr yn dweud p'un a allwch wneud hyn.

Os gallwch apelio, mae'n rhaid i chi wneud hynny o fewn **mis** i ddyddiad y llythyr hwn. Mae'n rhaid i'ch apêl fod yn ysgrifenedig a gallwch ddefnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon. Anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy apêl yn hwyr?

Y terfyn amser ar gyfer apelio yw mis ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad, ond efallai y caiff eich apêl ei thrin o hyd fel ei bod wedi'i derbyn ar amser ar ôl y dyddiad hwnnw. Felly os nad oeddech yn gallu apelio o fewn mis, dylech egluro pam ar y ffurflen ar gefn y daflen hon.

Mewn unrhyw amgylchiadau, y terfyn amser mwyaf ar gyfer apelio yw 13 mis o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad.

Os byddwch yn apelio rhwng mis a 13 mis ar ôl dyddiad y llythyr penderfyniad, yna dim ond aelod o'r tribiwnlys sy'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr cymwys sydd â'r pŵer i benderfynu fod eich apêl yn rhy hwyr.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn apelio?

Pan fydd y swyddfa yn cael eich apêl, byddant yn ailystyried y penderfyniad. Os na allant newid y penderfyniad er mantais i chi, byddant yn ei anfon at y Gwasanaeth Tribiwnlys, a fydd yn trefnu i dribiwnlys annibynnol ystyried eich achos.

Efallai y bydd y tribiwnlys yn cytuno â'r penderfyniad gwreiddiol neu'n penderfynu y dylid ei newid. Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu nad yw'r swyddfa wedi dyfarnu digon o arian i chi, byddant yn gorchymyn i'r swyddfa gynyddu eich taliadau.

> Os byddant yn gweld eich bod wedi bod yn cael gormod o arian, caiff eich budd-dal ei leihau.

Byddwn yn dweud mwy am y tribiwnlys ar y tudalennau canlynol.

Beth mae'r tribiwnlys yn ei wneud?

'Tribiwnlys Haen Sylfaenol' o fewn Gwasanaeth Tribiwnlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn penderfynu ar eich apêl. Gallai hyn fod mewn gwrandawiad llafar lle gallwch chi ac unrhyw gynrychiolydd sydd gennych siarad â'r tribiwnlys. Os nad ydych am fynychu'r tribiwnlys, byddant yn delio â'r apêl heb wrandawiad. Maent yn gwneud hyn drwy ddarllen y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig.

Dim ond y dystiolaeth, y gyfraith, a'ch amgylchiadau chi ar yr adeg y gwnaeth y swyddfa'r penderfyniad y gall y tribiwnlys eu hystyried. Ni allant ystyried unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r swyddfa wneud y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn.

Os byddwch yn cael newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eich cais am fudd-daliadau, dylech ddweud wrth y swyddfa budd-daliadau ar unwaith. Peidiwch ag aros am benderfyniad ar eich apêl. Cysylltwch â'r swyddfa a ddangosir ar y llythyr penderfyniad.

Pwy sydd ar y tribiwnlys?

- Bydd gan y Tribiwnlys Haen Sylfaenol hyd at dri aelod. Fe'u penodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Maent yn swyddogion barnwrol sy'n gweithredu'n annibynnol ar yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- Mae aelodau tribiwnlysoedd yn arbenigwyr ar y materion sy'n ymwneud â'ch apêl.
- Mae gan bob tribiwnlys aelod sy'n gymwys yn gyfreithiol (cyfreithiwr neu fargyfreithiwr) i helpu i gymhwyso'r gyfraith i'ch apêl.
- Gall tribiwnlysoedd hefyd gynnwys pobl sydd â chymwysterau meddygol neu ariannol neu'r rhai hynny sydd â phrofiad o anabledd neu wybodaeth am hynny.

Beth fydd yn digwydd yn ystod y broses apelio?

Ar ôl i chi ddweud wrth y swyddfa a wnaeth eich penderfyniad eich bod am apelio i'r tribiwnlys, efallai y bydd y swyddfa'n egluro'r penderfyniad yn fanylach. Os byddwch yn derbyn yr eglurhad, efallai y byddwch yn penderfynu peidio â pharhau â'ch apêl.

- Os ydych am barhau â'ch apêl, bydd y swyddfa'n ailystyried y penderfyniad os na fyddant wedi gwneud hynny'n barod.
- Os bydd y swyddfa'n cytuno fod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir a bod penderfyniad newydd o fantais i chi (er enghraifft, os byddant yn rhoi mwy o arian i chi), yna byddant yn anfon penderfyniad newydd atoch a bydd eich apêl yn dod i ben. Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad newydd y swyddfa, gallwch apelio yn ei erbyn.
- Os bydd y swyddfa'n penderfynu bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir ond **nad** yw'r penderfyniad newydd o fantais i chi (er enghraifft, os byddant yn lleihau'r cyfnod y cewch dderbyn budd-daliadau), yna byddant yn anfon penderfyniad newydd atoch. Bydd eich apêl yn parhau o hyd. Bydd gennych fis arall o ddyddiad y penderfyniad newydd i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach am y penderfyniad newydd.

Os na fydd y swyddfa yn newid eu penderfyniad, byddant yn anfon eich apêl ac eglurhad o'r gyfraith a'r ffeithiau y gwnaethant eu defnyddio i wneud y penderfyniad at y Gwasanaeth Tribiwnlys. Byddant hefyd yn cynnwys papurau perthnasol eraill, fel copïau o'r dystiolaeth y gwnaethant ei hystyried, er enghraifft adroddiadau meddygol, sef eu 'hymateb'.

Bydd y swyddfa yn anfon copi o'r ymateb atoch chi ac at unrhyw gynrychiolydd sydd gennych.

Darllenwch yr ymateb yn ofalus. Os na fyddwch yn deall rhywbeth, gofynnwch i'r swyddfa a'i anfonodd atoch. Gallwch ofyn am help gan ganolfan gynghori, fel Canolfan Cyngor ar Bopeth, neu gyfreithiwr.

Os ydych chi neu'ch cynrychiolydd yn dymuno ateb i'r ymateb neu anfon rhagor o ddogfennau i'r tribiwnlys, dylech wneud hynny o fewn mis o dderbyn yr ymateb.

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn anfon ffurflen ymholiad atoch, a dylech ei llenwi a'i dychwelyd o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad ar y ffurflen. Os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen, efallai y bydd y tribiwnlys yn meddwl eich bod am roi'r gorau i'ch apêl.

Mae'r ffurflen ymholiad yn gofyn sut yr hoffech i'ch apêl gael ei thrin. Mae'n rhaid i chi benderfynu p'un a hoffech fynychu gwrandawiad yn bersonol, a fydd yn eich galluogi i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu faterion sy'n codi. **Mae pobl sy'n mynychu eu gwrandawiad fel arfer yn gwneud yn well na'r rhai sydd ddim yn mynychu.** Os byddwch yn penderfynu peidio â mynychu, bydd y tribiwnlys yn penderfynu ar eich apêl, fwy na thebyg heb wrandawiad.

Y gwrandawiad

- Mae hwn yn wrandawiad apêl y byddwch yn ei fynychu'n bersonol.
- Efallai y bydd y tribiwnlys yn gofyn cwestiynau i chi.
- Gallwch fynd â rhywun gyda chi i'ch cynrychioli.
- Gallwch alw ar dystion i roi tystiolaeth i'r tribiwnlys.
- Gall cynrychiolydd o'r DWP fynychu. Efallai y bydd ef neu hi yn gofyn cwestiynau i chi ac yn galw ar dystion.
- Os byddwch yn dewis gwrandawiad ond yn canfod na allwch fod yn bresennol, mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Tribiwnlys yn syth. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd y tribiwnlys yn delio â'r apêl hebddoch.

- Os bydd eich apêl yn ymwneud â Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Lwfans Anabledd Difrifol, efallai y bydd y tribiwnlys yn gofyn i chi gael archwiliad meddygol yn y gwrandawiad. Caiff hyn ei gynnal yn breifat gan weithiwr meddygol proffesiynol.
- Mae gwrandawiadau tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd, ond fel arfer ychydig iawn o bobl sy'n bresennol. Mewn rhai amgylchiadau, gall y tribiwnlys wahardd y cyhoedd rhag bod yn bresennol.
- Os ydych yn byw dramor ac am gael gwrandawiad, rhowch wybod i'r Gwasanaeth Tribiwnlys eich bod am fynychu'r gwrandawiad neu am anfon rhywun i'ch cynrychioli.

  Gall y Gwasanaeth Tribiwnlys drefnu i'ch gwrandawiad apêl:
  - fod mor agos â phosibl i'r lle rydych yn cyrraedd Prydain Fawr (Cymru, Lloegr, yr Alban)
  - fod mor agos â phosibl i'ch cynrychiolydd os oes gennych un, neu
  - gael ei ohirio nes eich bod ym Mhrydain Fawr.

Costau

- Efallai y bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn talu am rai o'ch costau am fynychu, er enghraifft costau teithio. Os hoffech gael gwybod mwy am gostau, cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaeth Tribiwnlys sy'n delio â'ch apêl.
- Os ydych yn byw dramor, bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hunain i gyrraedd a gadael Prydain Fawr. Efallai y gallwch gael ychydig o'ch costau wedi'u talu drosoch tra byddwch ym Mhrydain Fawr.

Penderfynu ar yr apêl heb wrandawiad

- Os na chaiff gwrandawiad ei gynnal, bydd y tribiwnlys yn penderfynu ar yr apêl ar bapurau'r apêl yn unig.
- Dylech anfon unrhyw wybodaeth y credwch fydd yn helpu eich achos i'r Gwasanaeth Tribiwnlys. Anfonwch ef cyn gynted â phosibl gan na chewch wybod pryd fydd y tribiwnlys yn ystyried yr apêl.
- Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn anfon y penderfyniad atoch.

Y canlyniad

P'un a fyddwch yn mynychu gwrandawiad neu'n gadael i'r tribiwnlys ystyried eich apêl heb wrandawiad, bydd y canlynol yn gymwys:

- Bydd y tribiwnlys yn rhoi neu'n anfon hysbysiad penderfyniad i chi yn egluro eu penderfyniad. Byddant hefyd yn anfon copi i'r swyddfa a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.
- Byddant yn dweud wrthych am eich hawl i wneud cais am ddatganiad ysgrifenedig o resymau. Bydd hwn yn egluro penderfyniad y tribiwnlys, gan gynnwys y ffeithiau a'r gyfraith y gwnaethant ei defnyddio. Mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig am ddatganiad o resymau o fewn **mis** i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad.
- Os credwch fod camgymeriad ym mhroses y tribiwnlys (er enghraifft, na chawsoch ddogfen a gafodd ei defnyddio mewn gwrandawiad, neu os na allech fynychu'r gwrandawiad), yna gallwch ofyn i'r penderfyniad gael ei roi o'r neilltu ar gyfer gwrandawiad ffres. Mae'n rhaid i chi ysgrifennu i'r Gwasanaeth Tribiwnlys, gan roi eich rhesymau, o fewn **mis** i'r dyddiad ar yr hysbysiad penderfyniad.

- Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys yn cadw cofnod o drafodion yr apêl am o leiaf chwe mis ar ôl dyddiad y gwrandawiad. Gallwch gael copi drwy ysgrifennu atynt.
- Os bydd eich apêl yn llwyddo, bydd y swyddfa sy'n delio gyda'ch budd-dal fel arfer yn gweithredu ar benderfyniad y tribiwnlys cyn gynted ag y caiff e chopi ohono. Fodd bynnag, os byddant yn apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Sylfaenol i'r Uwch Dribiwnlys, ni fydd y swyddfa yn cymryd camau pellach nes bod yr Uwch Dribiwnlys wedi gwneud eu penderfyniad (gweler isod am ragor o wybodaeth am hyn).

Beth os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys?

Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad y Tribiwnlys Haen Sylfaenol, efallai y gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae'r Uwch Dribiwnlys yn cynnwys cyfreithwyr profiadol sy'n arbenigo mewn cyfraith budd-daliadau.

Pwy all apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Gellir gwneud apeliadau gan:

- unrhyw un sydd wedi apelio i'r Gwasanaeth Tribiwnlys yn barod
- DWP (os credwn fod y tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad wrth ddelio â'ch apêl)
- mewn rhai achosion, undeb llafur neu sefydliad tebyg sy'n apelio ar eich rhan, a
- pobl sy'n gorfod ad-dalu gordaliad budd-daliadau.

Am beth y gallaf apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Dim ond ar fater o gyfraith y gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys; hynny yw, os nad ydych yn credu fod y Tribiwnlys Haen Sylfaenol wedi cymhwyso'r gyfraith yn gywir wrth ddelio â'ch apêl. Ni allwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys am:

- ffeithiau mae'r Tribiwnlys Haen Sylfaenol wedi'u defnyddio, neu
- eu canfyddiadau neu eu casgliadau meddygol.

Sut y gallaf apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Bydd y llythyr penderfyniad gan y Gwasanaeth Tribiwnlys yn dweud wrthych beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon â'r penderfyniad. Darllenwch hwn yn ofalus gan ei fod yn nodi'r terfynau amser ar gyfer eich apêl.

Gallwch wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys, ond dim ond ar ôl i chi gael datganiad ysgrifenedig o resymau'r Tribiwnlys Haen Sylfaenol dros eu penderfyniad. Dylech ddarllen y datganiad o resymau'n ofalus. Os credwch fod y tribiwnlys wedi cymhwyso'r gyfraith yn anghywir, gallwch wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn **mis** o'r dyddiad ar y datganiad ysgrifenedig o resymau.

Fodd bynnag, os oes camgymeriad ar y llythyr penderfyniad sy'n golygu fod yn rhaid i chi ei ddychwelyd i'w gywiro, neu os byddwch wedi gofyn i'r penderfyniad gael ei roi o'r neilltu a'i fod wedi'i wrthod, yna bydd y mis yn cychwyn o'r dyddiad diweddaraf ar y llythyr cywiriad neu wrthod neu'r datganiad ysgrifenedig o resymau.

Mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i apelio. Mae'n rhaid i'ch llythyr nodi pa benderfyniad gan y tribiwnlys rydych yn apelio'n ei erbyn, pa gamgymeriadau o ran y gyfraith mae'n ei wneud, a pha ganlyniad yr hoffech ei gael. Os byddwch yn gwneud cais ar ôl y terfyn amser o fis, mae'n rhaid i chi hefyd ddweud pam a gofyn am ragor o amser. Dylech anfon y cais i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Bydd y Tribiwnlys Haen Sylfaenol yn gyntaf yn ystyried a fyddant yn adolygu'r penderfyniad eu hunain. Os byddant yn penderfynu peidio ag adolygu, naill ai byddant yn anfon eich cais i'r Uwch Dribiwnlys neu'n ei wrthod. Beth bynnag fydd y canlyniad, bydd y tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig.

Gallwch ofyn i ganolfan gynghori fel Canolfan Cyngor ar Bopeth, cyfreithiwr neu unrhyw berson neu sefydliad addas arall i'ch helpu i wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Os bydd y Tribiwnlys Haen Sylfaenol yn gwrthod eich cais am ganiatâd, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd y llythyr gan y Gwasanaeth Tribiwnlys yn egluro sut.

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfannau cynghori
Gall canolfannau cynghori fel Canolfan Cyngor ar Bopeth roi help a chefnogaeth i chi. Gallant hefyd eich helpu i lenwi eich ffurflenni neu i ysgrifennu llythyr, ac efallai yr ânt i dribiwnlys apeliadau gyda chi.

Undebau llafur
Efallai y bydd undebau llafur yn rhoi cyngor am ddim i chi, neu'n siarad ar eich rhan mewn tribiwnlys apeliadau.

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol
I gael cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim ar fudd-daliadau a chredydau treth (Cymru a Lloegr yn unig), neu i gael manylion am gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr, ffoniwch y Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345**. Gall pobl ag anawsterau gyda'u lleferydd neu gyda'u clyw ffonio **0845 609 6677**. Os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch gysylltu â llinell gymorth y Scottish Legal Aid Board ar **0845 122 8686** er mwyn dod o hyd i gyfreithiwr cymorth cyfreithiol.

Cyfreithwyr
Efallai y gallwch gael cyngor gan gyfreithiwr o dan y cynllun cymorth cyfreithiol.

Gallwch gael gwybod am hyn gan gyfreithiwr. Os ydych yn penderfynu defnyddio cyfreithiwr, byddwch yn ymwybodol nad yw'r cynllun cymorth cyfreithiol yn cwmpasu cost cyfreithiwr i'ch helpu mewn tribiwnlys apeliadau. Ni allwch gael arian ar gyfer ffioedd cyfreithiwr gan DWP, y Ganolfan Byd Gwaith na'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Os ydych yn byw dramor, gallwch ofyn i rywun ym Mhrydain Fawr weithredu ar eich rhan. Efallai y gallant gael help gan gyfreithiwr o dan y cynllun cymorth cyfreithiol.

Gallwch ddod o hyd i gyfeiriadau ar gyfer y sefydliadau a grybwyllir yma ar dudalennau busnes eich llyfr ffôn lleol, cyfeirlyfr Thomson Local, yr Yellow Pages, neu mewn llyfrgell.

Gallwch gael gwybodaeth gyffredinol ar unrhyw un o'r materion a godir yn y daflen hon, neu gopïau o unrhyw daflenni eraill, gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn ar dudalennau busnes eich llyfr ffôn lleol.

Os ydych am gael mwy o wybodaeth am y gyfraith, ewch ar-lein i **www.opsi.gov.uk**. Efallai y bydd gan rai llyfrgelloedd mawr gopïau o'r gyfraith hefyd.

Os ydych am gael mwy o wybodaeth am anghydfodau ac apeliadau, darllenwch ein canllaw technegol **NI260** 'A guide to Revision, Supersession and Appeal' ar-lein o wefan DWP yn **www.dwp.gov.uk**

I gael rhagor o wybodaeth am broses apelio Tribiwnlys Haen Sylfaenol ac Uwch Dribiwnlys, ewch i wefan y Gwasanaeth Tribiwnlys yn **www.tribunals.gov.uk**. I wneud cais am eu taflen 'Sut i Apelio', ffoniwch **08700 852611**. Gall pobl sydd ag anawsterau gyda'u clyw ddefnyddio Typetalk ar **18001 08700 852611**.

Gallwch gael y wybodaeth gwasanaeth cyhoeddus ddiweddaraf o **www.direct.gov.uk**

Cost galwadau

Roedd y costau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Ni ddylai galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 9c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau 0870 o linellau daear BT gostio mwy na 8c y funud a 7c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae'r dudalen hon ar gyfer eich nodiadau chi

Gwybodaeth bwysig

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir ym mis Ebrill 2010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Rydym yn argymell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y daflen hon.

Mae'r daflen ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill: ffoniwch 0845 7 31 32 33.

Os na allwch siarad neu glywed yn glir, gallwch archebu ein taflenni o'n gwasanaeth ffôn testun ar **0845 604 0210**.

Ewch i **www.direct.gov.uk** i gael yr ystod o wybodaeth ddiweddaraf ac ehangaf am wasanaethau cyhoeddus.

ISBN: 978-84947-310-1
© Hawlfraint y Goron.
Cynhyrchwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
Argraffwyd yn y DU. Ebrill 2010. GL24W

Eich apêl

Cwblhewch y ffurflen hon ac ewch â hi neu anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.

1 **Amdanoch chi**

Teitl Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall (nodwch)

Cyfenw

Pob enw arall

Dyddiad geni / /

Rhif Yswiriant Gwladol (YG) | | | | | | | | |

Gallwch gael hwn o'ch cerdyn rhif YG, slipiau cyflog, papurau treth neu lythyrau gan Ganolfan Byd Gwaith.

Cyfeiriad presennol

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd Cod Rhif

2 **Plentyn**

Os yw'r apêl hwn am blentyn, nodwch eu manylion:

Enw'r plentyn

Dyddiad geni'r plentyn / /

Rhif YG y plentyn | | | | | | | | |

3 Ydych chi wedi trefnu i rywun eich cynrychioli yn eich apêl?

Naddo ☐ Do ☐ Rhowch eu henw a'u cyfeiriad

Eu henw llawn

Eu cyfeiriad

_____

_____

_____

_____

Cod post

Eu rhif ffôn | Cod | Rhif |

Llofnodwch y blwch hwn i awdurdodi'r person hwn i weithredu ar eich rhan

4 **Y Penderfyniad**

Enw'r budd-dal neu'r budd-daliadau

Dyddiad ar frig y llythyr am y penderfyniad / /

5 **Yr apêl**

- Defnyddiwch y gofod ar ddiwedd y ffurflen hon i ddweud pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Mae'n rhaid i chi ddweud pam y credwch fod y penderfyniad yn anghywir. Nid yw'n ddigon dweud 'Dydw i ddim yn cytuno â'r penderfyniad hwn', 'Nid yw'r arian yn ddigon' neu 'Mae fy meddyg yn dweud fy mod yn sâl'.
- Mae'n rhaid i'r rheswm a rowch fod yn debyg i'r enghreifftiau hyn:
  - 'Rwy'n credu eich bod wedi defnyddio'r ffigurau anghywir i weithio fy llog morgais allan. Y ffigurau cywir yw...'
  - 'Rydych wedi fy nhalu o 4 Gorffennaf ond rwy'n credu y dylwn gael fy nhalu am bythefnos cyn hynny oherwydd…'
  - 'Dylai fy Lwfans Byw i'r Anabl fod yn fwy oherwydd mae angen sylw arnaf o leiaf wyth gwaith y dydd - nid yn "anaml" fel rydych wedi dweud'.

- Os ydych yn apelio yn erbyn mwy nag un penderfyniad, mae'n rhaid i chi ddweud pam eich bod yn anghytuno â phob un.
- Os ydych yn apelio fwy na mis ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, mae'n rhaid i chi ddweud pam y bu oedi gyda'ch apêl.

6 Dylech chi neu'ch cynrychiolydd lofnodi isod

Llofnodwch yma

Dyddiad / /

7 Beth i'w wneud nawr

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi dweud wrthym ar ochr arall y ffurflen hon pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Ewch â'r ffurflen hon neu anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.
- Bydd o gymorth os byddwch yn ysgrifennu 'Apêl' ar flaen yr amlen.
- Cofiwch, mae'n rhaid i'ch apêl gyrraedd y swyddfa o fewn mis o'r dyddiad ar frig y llythyr sy'n dweud wrthych am y penderfyniad.

8 **Rhesymau**

- Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Mae'n rhaid i chi ddweud pam y credwch fod y penderfyniad yn anghywir. Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS.

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen arall o bapur.
- Cofiwch roi eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw ddalennau o bapur ychwanegol.
- **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi ochr arall y ffurflen hon a'i llofnodi**.
- Ewch â'r ffurflen hon neu anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.

Ar gyfer ein defnydd ni

/ /	Cyflwynwyd ffurflen apelio i'r cwsmer
/ /	Derbyniwyd yr apêl
/ /	Derbyniwyd yr apêl yn swyddfa'r sector
/ /	Rhif yr anfoneb